# Fframwaith Polisi Moesegol

| Adol. | Dyddiad | Pwrpas Cyhoeddi/Disgrifiad o’r Newid | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i Gwblhau |
|---|---|---|---|
| 1. | 14 Rhagfyr 2007 | Cyhoeddiad Cyntaf | |
| 2. | Gorffennaf 2012 | Adolygu | |
| 3. | 10 Tachwedd 2016 | Adolygu | 4 Ebrill 2017 |
| 4 | 1 Tachwedd 2021 | Diweddaru teitl y Pwyllgor | |

| Swyddog Polisi | Uwch Swyddog sy’n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Gwasanaethau Llywodraethu | Ysgrifennydd y Brifysgol | Pwyllgor Llywodraethu a Moeseg Ymchwil y Brifysgol | 10 Tachwedd 2016 |

***Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen tair blynedd***

## A. Rhagarweiniad

Cenhadaeth Prifysgol Bangor yw bod yn:

> "sefydliad cryf, hyderus a gydnabyddir yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth ar sail ei bortffolio amrywiol o addysgu ac ymchwil, ac am y profiad unigryw, amlddiwylliannol a chynhwysol y mae'n ei roi i'w staff a'i fyfyrwyr."

Y gwerthoedd sy'n sail i'n strategaeth yw:

- Rhoi amgylchedd diogel, croesawus a chynhwysol i'n myfyrwyr, ein staff a'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu.
- Cyflawni ein cenhadaeth gyda balchder a hunanhyder, gan sicrhau ein bod yn cydnabod y cyfraniad rydym yn gallu ei wneud.
- Cydnabod arbenigrwydd yr hyn a gynigiwn i'n myfyrwyr, a derbyn a gwerthfawrogi amrywiaeth ein staff a'n myfyrwyr, yn ogystal â'r amryfal ffyrdd o edrych ar bethau a dulliau sy'n deillio o hynny.
- Cydnabod bod cyflwyno rhychwant ein gweithgareddau addysgu ac ymchwil yn rhoi'r llwyfan gorau i adeiladu arno â hyder.
- Gwerthfawrogi ein safle fel rhan o gymuned ranbarthol ehangach a chymryd cyfrifoldeb dros sicrhau ein bod yn cyfrannu'n gadarnhaol at economi, cymdeithas, amgylchedd, iaith a diwylliant y rhanbarth hwnnw.
- Gwerthfawrogi'r pwyslais sylweddol a roddir i fyfyrwyr fel partneriaid a pharhau i feithrin a chryfhau llais y myfyrwyr.
- Cyfrannu at gynaliadwyedd y Brifysgol, y rhanbarth a'r byd - nid yn unig yng nghyd-destun ein hamgylchedd naturiol cyfoethog, ond hefyd o ran cydlyniad cymdeithasol, sefydlogrwydd ariannol ac effeithlonrwydd adnoddau.

Bydd y Brifysgol yn ceisio glynu wrth y safonau moesegol uchaf wrth weithio i gyflawni ei chenhadaeth a gweithredu ei chynllun strategol. Amcan y ddogfen hon yw amlinellu fframwaith sy'n diffinio safonau'r brifysgol yn gyffredinol. Cydnabyddir bod gan unigolion wahanol safbwyntiau ar faterion moesegol.

## B. Diben a Defnydd

1. Mae'r fframwaith hwn yn disgrifio sut mae'r brifysgol yn ymgorffori ei gwerthoedd mewn egwyddorion ac ymarfer, ac mae'n berthnasol i bob aelod staff, pob myfyriwr a phob aelod o'r Cyngor.

2. Sut i ddefnyddio'r fframwaith hwn:

    [a] Defnyddir y fframwaith ar y cyd â pholisïau, codau a dogfennau cyfarwyddyd ac ymddygiad y brifysgol. Ceir polisi ar wahân ar foeseg ymchwil.

[b] Ni all y fframwaith ragweld nac ymdrin â phob cyfyng-gyngor moesegol posib. Fe’i bwriedir fel arweiniad i staff a myfyrwyr i weithredu bob amser gyda chywirdeb, uniondeb a doethineb.

[c] Lluniwyd y fframwaith gan Bwyllgor Llywodraethu a Moeseg Ymchwil y Brifysgolmewn ymgynghoriad â’r Pwyllgor Gweithredu ac fe’i cymeradwywyd gan Gyngor y Brifysgol ar 14 Rhagfyr 2007. Adolygwyd y fframwaith gan Gyngor y Brifysgol ym mis Gorffennaf 2012, a mis Chwefror 2017.

[d] Dylid cyfeirio unrhyw bryderon moesegol neu gyfreithiol difrifol at Ysgrifennydd y Brifysgol yn y lle cyntaf.

Llofnodwyd gan: ..............................................

Yr Athro John G. Hughes
Is-ganghellor

Dyddiad: 10/11/16

## C. Datganiadau Moesegol

1. Mae’r Brifysgol wedi ymrwymo i gyfleoedd cyfartal ac ni fydd yn goddef gwahaniaethu ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig fel y maent wedi eu diffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (sef oed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil a beichiogrwydd a mamolaeth).

2. Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg, mae gan y brifysgol gynllun iaith sy’n diffinio polisi’r brifysgol o ran yr iaith Gymraeg, ac sy’n rhoi statws cyfartal i’r ddwy iaith.

3. Mae’r Brifysgol yn cefnogi’r cydsyniad o ryddid academaidd i staff a myfyrwyr o fewn terfynau’r gyfraith a’r egwyddorion moesegol a ddisgrifir yn y fframwaith hwn.

4. Mae cysylltiadau rhwng unigolion yn y brifysgol wedi eu seilio ar barchu urddas yr unigolyn a thrin pawb yn deg. Ni fydd yn goddef aflonyddu rhywiol, corfforol na meddyliol (yn cynnwys bwlio) gan staff na myfyrwyr ac mae’n rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch ac iechyd staff a myfyrwyr yn eu hamgylchedd gwaith ac astudio.

5. Bydd y Brifysgol yn trin data personol unigolion yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data. Yn y cyd-destun hwn, ni chaiff gwybodaeth y mae’r Brifysgol wedi ei chael ei defnyddio at ddibenion eraill ac eithrio dibenion y Brifysgol.

6. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau uchaf posib o ran didwylledd, gonestrwydd ac atebolrwydd ac mae'n ceisio gweithredu mewn modd cyfrifol, gan gymryd i ystyriaeth ofynion ei chyrff cyllido a disgwyliadau'r Pwyllgor ar Safonau Bywyd Cyhoeddus. Yn unol â'r

ymrwymiad hwnnw, anogir aelodau staff, myfyrwyr ac aelodau eraill y Brifysgol sydd â phryderon difrifol am unrhyw agwedd ar ei gwaith i ddod ymlaen i leisio'r pryderon hynny trwy gyfrwng y Polisi a'r Gweithdrefnau ar Ddatgelu er Lles y Cyhoedd (Chwythu'r Chwiban).

Caiff cynnig a derbyn arian, rhoddion neu letygarwch gan aelodau staff ei reoli gan y *Polisi Gwrth-lwgrwobrwyo* a'r *Polisi ar gyfer Derbyn neu Gynnig Lletygarwch Corfforaethol*, sydd â'r nod o sicrhau na chaiff arian, rhoddion na lletygarwch eu defnyddio i sicrhau mantais annheg na dylanwad annheg.

7. Er mwyn sicrhau bod unigolion yn gallu codi materion o wir bryder heb ofni anfantais mae gan y Brifysgol bolisïau a gweithdrefnau ar waith i ymateb i gwynion ac apeliadau.

8. Mae'r Brifysgol yn ymdrechu i sicrhau bod y broses o recriwtio myfyrwyr a staff a'r broses o dderbyn myfyrwyr yn deg, yn eglur, yn bendant ac yn cael eu gweithredu'n gyson.

9. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a roddir i ddarpar fyfyrwyr, i fyfyrwyr presennol ac i'n alumni, yn gyfredol a gonest, ac yn adlewyrchiad cywir o'r hyn y gall myfyriwr ei ddisgwyl wrth astudio ym Mangor.

10. Gwnaiff y Brifysgol, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, hybu ymddygiad sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ac amgylcheddol yn ei holl ymwneud. Fel rhan o'i hymrwymiad i ddatblygiad cynaliadwy, gwnaiff y Brifysgol, i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, ymdrechu i atal neu, fel arall, leihau, lliniaru neu unioni unrhyw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd naturiol ac adnoddau cyfyngedig a ddaw yn sgil ei gweithrediadau.

11. Bydd y brifysgol yn cynnal polisi wobrwyo a thaliadau staff sy'n deg a thryloyw.

12. Dylai aelodau staff ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau neu wrthdaro buddiannau posib – mae hyn yng nghyd-destun sefyllfaoedd lle gallant hwy, aelod o'u teulu neu gyfaill gael mantais bersonol neu ariannol yn sgil penderfyniad neu weithgaredd penodol. Ym mhob achos lle mae amheuaeth, rhaid datgan buddiannau.

13. Dylid datgan cysylltiadau personol agos rhwng aelodau staff a rhwng aelodau staff a myfyrwyr. Mae'n rhaid datgelu gwrthdaro buddiannau posib rhwng staff a myfyrwyr.

14. Mae'n rhaid i staff a myfyrwyr gael eu hysbysu am natur ac ystod cymalau cyfrinachedd mewn unrhyw ddogfennau a ystyrir yn angenrheidiol gan y Brifysgol a'i phartneriaid busnes.

15. Mae *Polisi Buddsoddi Moesegol* y Brifysgol yn sail i'w holl fuddsoddiadau.

16. Bydd y Brifysgol yn cyhoeddi datganiad caethwasiaeth a masnachu pobl yn flynyddol, ac yn cymryd camau i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu pobl yn digwydd yn unrhyw un o'i chadwyni cyflenwi nac mewn unrhyw ran o'i busnes.

17. Mae'r Brifysgol yn cefnogi ei hymchwilwyr i ymgymryd ag ymchwil, a ddylai gael ei awdurdodi drwy brosesau moeseg o fewn *Polisi Moeseg Ymchwil* y Brifysgol .